COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR, ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD LLUN, 27 TACHWEDD, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | N Clarke | C Davies | P W Jenkins |
| J E Pratt | G Walter | I Williams | MJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M J Evans, MJ Kearn a/ac W J Kendall

Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Kwaku Opoku-Addo | Arweinydd Tîm Polisi, Datblygu a Thrafnidiaeth |
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Julie Ellams | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cymunedau |

Aelodau'r Cabinet:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Rhys Goode | Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio |

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim.

## 56. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 3 dyddiedig 2 Hydref 2023, fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Tachwedd 2023 |

## 57. Prosiectau Trafnidiaeth Strategol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd: Yn dilyn ystyried yr Adroddiad a thrafodaeth fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion canlynol:<br><br>1. Cydnabu'r Pwyllgor ei bod yn ofynnol cael rhestr o gynlluniau yn barod ar gyfer unrhyw fidiau am gyllid trafnidiaeth cyfredol neu yn y dyfodol, rhag ofn y byddai arian dros ben ar gael gan Lywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol ac ar gyfer nodi prosiectau ar gyfer cyfraniadau datblygwyr drwy gytundebau cynllunio Adran 106 (A106). Fodd bynnag, mynegodd y Pwyllgor rai pryderon ynghylch y broses ar gyfer prosiectau trafnidiaeth, oedd heb unrhyw fath o flaenoriaethu, hyd yn oed gyda phrosiectau oedd yn dod o dan yr un strategaeth, megis Teithio Llesol. Er eu bod yn deall mai gan Lywodraeth Cymru y câi cyllid ei reoli, teimlai'r Aelodau fod y system yn ymddangos y tu chwith ac yn hytrach nag aros i gyllid ddod ar gael y byddai'n ymddangos mai dull llawer mwy effeithiol fyddai tabl neu gynllun cynhwysfawr o anghenion trafnidiaeth, datrysiadau, a blaenoriaethau o fewn y Fwrdeistref, y gellid ei ddefnyddio wedyn i fynd allan i geisio cyllid.<br><br>Ymhellach, mynegodd yr Aelodau bryderon difrifol ynghylch costau cynnal a chadw a chostau unrhyw brosiect trafnidiaeth i'r Awdurdod fyddai'n parhau i'r dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor. Roedd y Pwyllgor felly o'r farn fod ystyried rhyw fath o flaenoriaethu ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yn hanfodol o ystyried sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn y dyfodol a'i allu i gynnal y rhain wrth symud ymlaen.<br><br>Yng ngoleuni'r uchod, er eu bod yn cydnabod y cyfyngiadau a wynebai Swyddogion ynghylch y cyllid oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru, dalient i fynegi pryder y gallai rhai o'r prosiectau fod yn amhriodol o bosibl erbyn hyn ac, ar ben hynny, roeddent yn pryderu, oherwydd y broses ariannu oedd yn ei lle, y gallai'r Awdurdod ei gael ei hun yn gwneud cais am brosiectau, 'dim ond oherwydd' bod y cyllid ar gael, yn hytrach nag oherwydd bod angen penodol amdanynt. Gydag adolygiad o'r rhestr brosiectau trafnidiaeth oedd i gael ei gynnal yn y dyfodol agos, i'w gytuno gan y Cabinet, |

<table>
<tr><td></td><td>argymhellodd y Pwyllgor fod yr adolygiad yn ystyried y canlynol:<br><br>➢ A yw prosiectau bellach wedi dyddio, o ystyried pa mor hir y maent wedi bod ar y rhestr;<br>➢ A oes tystiolaeth glir o'r 'angen' am y prosiect – er enghraifft, y manteision i'r gymuned, unrhyw dystiolaeth o brosiectau tebyg sy'n dangos llwyddiant yn glir drwy newid moddol;<br>➢ Sut y gellid blaenoriaethu prosiectau, hyd yn oed o fewn eu strategaeth eu hunain yn unig, megis llwybrau Teithio Llesol – a ellid defnyddio diogelwch fel maen prawf ar gyfer y prosiectau hyn?<br>➢ Beth yw goblygiadau ariannol unrhyw brosiect ar gyfer yr Awdurdod yn y dyfodol o ran ei rwymedigaethau cynnal a chadw yn ogystal ag unrhyw effaith bosibl ar seilwaith presennol?<br><br>2. Yn ogystal â hyn, mynegodd yr Aelodau bryder, oherwydd toriadau hanesyddol yn y gyllideb, nad oedd gan yr Awdurdod yr adnoddau o ran staffio na'r arbenigedd mewnol i gefnogi rhai prosiectau trafnidiaeth, yn enwedig o ran y gallu i amcangyfrif neu ddarparu unrhyw gostau dangosol ar gyfer pob cynllun, a ddylai fod yn ofynnol fel sail i unrhyw benderfyniad ar brosiect ar gyfer y rhestr neu ynghylch pa geisiadau am gyllid y dylid eu datblygu yn y dyfodol. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch y ffordd y gellid mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.<br><br>3. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith, er nad oedd yr adroddiad yn ymdrin yn benodol ag agweddau eraill megis parcio, diogelwch, palmentydd ac yn y blaen, fod y rhain yn eu hanfod ynghlwm wrth brosiectau trafnidiaeth. Gofynnodd y Pwyllgor felly am sicrwydd y byddai'r Awdurdod yn gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig pan oedd y prosiectau hyn yn cael eu hystyried ar gyfer ceisiadau am arian ac y byddai hyn yn rhan o'r dystiolaeth a ddarperid ar gyfer y Pwyllgor ynghylch unrhyw adroddiad ar y pwnc hwn yn y dyfodol.<br><br>Gwybodaeth Ychwanegol<br><br>4. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried y pwnc hwn yn y dyfodol, gofynnodd yr Aelodau am i ddiagram neu siart llif gael ei ddarparu fyddai'n dangos sut roedd y gwahanol brosiectau trafnidiaeth yn ffitio dan eu cynlluniau neu strategaethau eu hunain ac wedyn sut roeddent yn cyd-fynd â'i gilydd.<br>5. Gofynnodd y Pwyllgor i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd edrych i weld a oedd y Swyddogion wedi dweud yn flaenorol fod cysylltiad uniongyrchol rhwng cynllun Parcio a Theithio'r Pîl a phrosiect Cyswllt Metro Porthcawl, gan mai dyma oedd dealltwriaeth y Pwyllgor.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad gwneud y penderfyniad</td><td>27 Tachwedd 2023</td></tr>
</table>

## 58. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd: Ystyriodd a nododd y Pwyllgor Adroddiad y Flaenraglen Waith a'i hatodiadau, gan gytuno bod angen ystyried blaenoriaethau allweddol ar gyfer eitemau yn y dyfodol.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor hefyd, gyda golwg ar adroddiad 'Ffrydiau Gwaith Gwasanaethau Gwastraff y Dyfodol ôl-2026' a drefnwyd ar gyfer 26 Chwefror, am gael derbyn copi o'r contract (gan gynnwys atodiadau) yn hytrach na chrynodeb yn unig yn ogystal â dogfen gryno yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y ddau gytundeb. Deallwyd efallai y byddai'n rhaid tynnu rhannau allan o'r cytundeb hwn er mwyn cyfrinachedd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Tachwedd 2023 |

## 59. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 27 Tachwedd 2023 |

I arsylwi trafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y dollen hon ar gyfer Rhan Un a’r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:40.